John Scottus (Eriugena) *c.*800–*c.*870

Athronydd ac awdur

Ganed John Scottus yn Iwerddon ond mae'n debygol iawn mai yn Ffrainc y bu farw. Ef oedd prif athronydd y nawfed ganrif. Gwyddel oedd John Scottus; roedd y gair 'scottus' yn golygu Gwyddel ar y pryd. Dyfeisiodd yr enw Eriugena sydd yn golygu 'ganed yn Iwerddon' fel disgrifiad ohono'i hun, a defnyddiodd yr enw yn nheitl ei gyfieithiad o waith Pseudo-Dionysius. Ni wyddom yn union ble y cafodd ei eni ond mae'n debygol iddo gael addysg dda oedd yn cynnwys Lladin a'r gyfraith Wyddelig mewn mynachlog. Mae'n debyg mai un o'r rhesymau pam y bu iddo adael Iwerddon oedd yr ymosodiadau cyson gan y Llychlynwyr. Os gwir hynny, byddai wedi gadael ar ôl 836, pan ddwysaodd yr ymosodiadau.

Ymddengys John yn y llyfrau hanes am y tro cyntaf mewn trafodaeth ar etholedigaeth. Ar ddiwedd yr 830au dechreuodd mynach o'r enw Gottschalk (805–868) ddysgu etholedigaeth ddwbl, sef fod Duw yn ethol y da i wynfyd tragwyddol a'r drwg i ddamnedigaeth dragwyddol. Ysgrifennodd John Scottus yn erbyn Gottschalk, ac oddeutu 850 ysgrifennodd y *De divina praedestinatione*. Yn hwnnw dadleuai yn erbyn etholedigaeth ddwbl gan ddweud, er bod Duw yn hollwybodol ac yn gwybod beth fyddai tynged pawb, dim ond ethol y da i wynfyd yr oedd. Nid oedd yn ethol y drwg i ddamnedigaeth. Erbyn hynny roedd John yn byw ym mhalas Siarl Foel, brenin Ffrancaidd gorllewin Carolingian. Tua 860 gorffennodd ei gyfieithiad o weithiau Pseudo-Dionysius, diwinydd o'r bumed ganrif, ac yna'r *Ambigua* gan Maximus y Cyffeswr.

Ei gampwaith mwyaf oedd y *De divisione naturae* neu *Periphyseon*. Mae'r gwaith hwn (sydd yn cynnwys pum cyfrol) ar ffurf sgwrs rhwng athro, sef Nutritor, a'i ddisgybl, sef Alumnus. Mae'r gyfrol gyntaf yn trafod perthynas Duw gyda deg categori Aristotlys a'r pedair arall yn esboniad o agoriad llyfr Genesis. Y mae'n ymdrin â phedwar peth yn benodol sef, 1. Yr hyn sy'n creu ond heb ei greu. 2. Yr hyn sy'n greëdig ac yn creu. 3. Yr hyn sy'n greëdig ond nad yw yn creu. 4. Yr hyn nad yw

yn greëdig nac yn creu. Dengys y gwaith hwn ôl gwybodaeth eang o weithiau Groegaidd clasurol a deallusrwydd mawr.

Roedd hefyd yn dipyn o fardd a ysgrifennai mewn Groeg coeth. Roedd rhai o'i gerddi yn canmol y Brenin Siarl Foel.

Oherwydd gwreiddioldeb ei syniadaeth a beiddgarwch ei feddyliau roedd John Scottus yn unigryw yn ei gyfnod ac fe ddylanwadodd ei ysgrifau ar eraill. Dylanwadodd ar y rhai oedd â diddordeb mewn rhesymeg ac y mae nifer o syniadau yn yr ysgrif *Categoriae Decem,* a ymddangosodd yn y ddegfed ganrif, wedi eu hysbrydoli ganddo. Ni wyddom pryd na lle y bu farw.